Adroddiad ar

# Drefniadau Trochi yn y Gymraeg yng

# Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Canolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

**Dyddiad yr arolygiad:** Gorffennaf 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

| | |
|---|---|
| Enw'r Darparwr | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 08/07/2025 |

**Cyd-destun**

Mae dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae'r ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn cynnig darpariaeth cymorth trochi o fewn eu hysgolion ar gyfer disgyblion sy'n dymuno trosglwyddo o ysgol cyfrwng Saesneg i ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth hon ar gael i ddisgyblion hyd at 11 oed a bydd disgyblion yn cael cymorth i integreiddio'n llawn i ysgol cyfrwng Cymraeg.

Bydd agor trydedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dosbarth trochi i gefnogi hwyrddyfodiaid yn y Gymraeg.

## Crynodeb

Mae gan arweinwyr yr awdurdod lleol weledigaeth glir, hirdymor ar gyfer trochi yn y Gymraeg sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Maent wedi ymrwymo i gryfhau darpariaeth ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dda. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio prosesau hunanwerthuso a gwella yn ddigon effeithiol i lywio datblygiad strategol darpariaeth trochi hwyr dros gyfnod.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus ar draws ysgolion yn yr awdurdod. Mae eu dull cydweithredol yn cefnogi datblygiad medrau iaith disgyblion a staff yn briodol. Maent wedi creu ethos cynhwysol sy'n cefnogi lles disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn gryfder allweddol yn y trefniadau trochi presennol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn rhan o gymuned yr ysgol, sy'n cefnogi eu hyder a'u hagweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg.

Mae staff yn fodelau iaith effeithiol ac yn defnyddio addysgeg drochi briodol, ar y cyfan. Maent yn amrywio dulliau addysgu yn briodol ac yn cyflwyno geirfa a phatrymau brawddeg yn dda mewn sesiynau trochi. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau Cymraeg, yn enwedig mewn siarad. Fodd bynnag, nid yw staff bob amser yn darparu profiadau dysgu pwrpasol sy'n diwallu anghenion caffael iaith disgyblion yn gyson dros gyfnod.

Er bod staff yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn briodol, nid ydynt bob amser yn ei chymhwyso'n ddigon effeithiol i gynllunio dysgu sy'n gweddu'n dda i anghenion hwyrddyfodiaid. O ganlyniad, yn aml, nid yw disgyblion yn ddigon hyderus a rhugl i ddefnyddio'r Gymraeg yn annibynnol ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn elwa ar ddysgu proffesiynol i gefnogi lles a blaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd hyfforddiant i ddyfnhau dealltwriaeth o fethodoleg trochi yn gyfyngedig. Mae hyn yn effeithio ar allu staff i gefnogi caffael iaith yn gyson.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion yn gryfder nodedig. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn cydweithio'n gadarnhaol, ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig â gweithgareddau diwylliannol a dysgu. Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu cefnogi'n effeithiol o fewn yr amgylchedd cynhwysol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud 2 argymhelliad i helpu'r awdurdod lleol i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau prosesau hunanwerthuso ar bob lefel i sicrhau darpariaeth drochi o ansawdd uchel ar draws yr awdurdod

A2 Darparu dysgu proffesiynol pwrpasol ar gyfer arweinwyr a staff i ddyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o addysgeg drochi effeithiol a'r effaith ar gynnydd disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad arolygu.

## Prif werthusiad

Mae gan arweinwyr yr awdurdod lleol weledigaeth hirdymor glir ar gyfer trefniadau trochi yn y Gymraeg, ac yn ymgysylltu'n llawn â'r holl randdeiliaid yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Maent wedi ymrwymo i ddatblygu trefniadau trochi ar draws yr awdurdod. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ddigon pwrpasol i osod cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu darpariaeth trochi hwyr dros gyfnod.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo datblygiad y Gymraeg ar draws ysgolion o fewn yr awdurdod lleol yn llwyddiannus. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cael effaith addas ar ddatblygu medrau Cymraeg staff a disgyblion mewn ysgolion.

Mae arweinwyr yr awdurdod lleol wedi datblygu diwylliant ac ethos cynhwysol sy'n cefnogi lles a dysgu disgyblion trwy gyfrifoldebau arweinyddiaeth ddosbarthedig priodol. Mae gan arweinwyr ymreolaeth lawn i ddatblygu'r ddarpariaeth yn unol ag anghenion y disgyblion. Maent yn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol o fewn amgylcheddau dysgu cynhwysol yr ysgolion. Mae hyn yn sbardun allweddol ar gyfer y trefniadau trochi hwyr presennol. Mae arweinwyr a staff yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cynnig amgylchedd dysgu cefnogol a chroesawgar i bron bob un o'r disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan o gymuned yr ysgolion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a'u hagweddau at ddysgu Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r dull ar gyfer trefniadau trochi yn y Gymraeg yn anghyson ar draws yr awdurdod lleol ar hyn o bryd. Er bod gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion trochi hwyr, nid ydynt bob amser yn gwerthuso'n llawn effaith yr addysgu a'r dysgu ar gynnydd disgyblion yn ddigon da.

Yn gyffredinol, mewn sesiynau grwpiau bach, mae staff yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth briodol o addysgeg drochi effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg, yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn mwy o gymorth â chaffael iaith. At ei gilydd, maent yn fodelau iaith effeithiol ac yn cynorthwyo llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg, yn enwedig yn eu medrau siarad. Trwy gael cymorth priodol, mae disgyblion yn siarad yr iaith yn fwy cyson ac â hyder cynyddol dros gyfnod. Mae staff yn amrywio dulliau dysgu yn fwriadol ac yn defnyddio methodoleg briodol o ran caffael iaith mewn sesiynau trochi dwys ar gyfer hwyrddyfodiaid. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn caffael y Gymraeg dros gyfnod. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau, yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus ac yn ymdrechu i lwyddo.

Mae staff yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu ac yn amrywio'r dulliau addysgu i'w helpu i fwynhau'r broses o ddysgu iaith newydd. Yn ystod

gweithgareddau trochi, maent yn holi disgyblion yn fedrus ac yn eu cynorthwyo i wrando ac ymateb gan ddefnyddio geirfa a phatrymau brawddeg priodol. Mae staff yn annog disgyblion i gywiro brawddegau yn sensitif ac yn adeiladol, sydd yn ei dro yn rhoi’r hyder i ddisgyblion gyfathrebu a sgwrsio yn Gymraeg yn y sesiynau hyn. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ddysgu Cymraeg ac yn fodlon ceisio siarad mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, fel ei gilydd. Yn yr arfer orau, maent yn mwynhau gwrando ac yn ceisio cyfathrebu heb ofni methu. Yn gyffredinol, mae staff yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn defnyddio’r wybodaeth hon yn ddigon pwrpasol wrth gynllunio gweithgareddau dysgu ar gyfer hwyrddyfodiaid. Yn ychwanegol, nid ydynt bob amser yn darparu profiadau dysgu pwrpasol yn ddigon medrus i ddiwallu anghenion caffael iaith disgyblion yn gyson dros gyfnod. O ganlyniad, nid oes gan y disgyblion hyn yr hyder na’r gallu yn eu medrau Cymraeg i ddysgu’n llawn ar draws pob maes.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn gallu manteisio ar ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol i gefnogi datblygu blaenoriaethau cenedlaethol, fel lles. Er eu bod yn hyrwyddo diwylliant cryf o waith tîm a chydlyniad ymhlith staff, nid ydynt bob amser yn darparu dysgu proffesiynol penodol i ddatblygu dealltwriaeth staff o fethodoleg effeithiol ar gyfer darpariaeth trochi hwyr. O ganlyniad, nid ydynt yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol a chadarn ynghylch sut mae hwyrddyfodiaid yn gwneud cynnydd adeiladol yn eu medrau wrth iddynt gaffael y Gymraeg dros gyfnod.

Mae staff yn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol ac mae hyn yn gryfder nodedig yn y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel, ac mae bron pob un ohonynt yn dangos ymddygiad cadarnhaol a chefnogol tuag at bobl eraill. Mae bron pob un o’r disgyblion yn dweud eu bod yn teimlo’n ddiogel ac yn gwybod at bwy y dylent droi os byddant yn teimlo’n drist neu os bydd angen cymorth arnynt. Maent yn teimlo’u bod yn cael eu trin yn deg a bod y sesiynau trochi’n cynnig awyrgylch cynhwysol i gefnogi eu dysgu. Mae bron pob un o’r disgyblion yn hapus yn y ddarpariaeth ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion a’r staff sy’n eu helpu i gaffael y Gymraeg. Rhoddir cyfleoedd i’r rhan fwyaf o ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafaredd ymhellach mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau Eisteddfod. Mae disgyblion yn cydweithio’n aeddfed ac yn frwdfrydig â’i gilydd wrth gymryd rhan yn eu gweithgareddau dysgu, er enghraifft trwy chwarae gemau fel grŵp i gyfoethogi strwythurau ieithyddol cywir. Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu cefnogi’n dda o fewn y ddarpariaeth. O ganlyniad i hyfforddiant priodol, mae staff yn defnyddio strategaethau cadarnhaol ac effeithiol sy’n cefnogi lles myfyrwyr a’u hagweddau tuag at eu dysgu.

Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â disgyblion. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddysgu’n bwrpasol trwy annog cymhelliant a hyder i siarad Cymraeg yn ddigymell yn rhan o’u dysgu a’u chwarae.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r darparwr ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau’r darparwr ar gyfer rheoli’r safle yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff, arweinwyr a phenaethiaid ysgolion cofrestredig disgyblion trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn arsylwi addysgu a gweithgareddau eraill, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu
- yn cyfarfod â disgyblion (cyn-ddisgyblion a disgyblion presennol) i drafod eu gwaith a chael eu barn ar agweddau amrywiol ar waith y darparwr
- yn cyfarfod â staff, arweinwyr, rheolwyr, penaethiaid ysgolion cofrestredig disgyblion ac eraill i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso
- yn ystyried y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) / y cynllun gwella ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda y mae'r awdurdod lleol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau wedi'u cynllunio
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. ‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’ neu ‘ychydig iawn o ddisgyblion…’. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/09/2025